

Tasg 1

Trafod lluniau

1. Faint ydych chi'n cofio?

Edrychwch yn ofalus ar y lluniau unwaith eto. Yna, llenwch y grid yma.

SIOE FFASIYNAU				
	LLUN 1	LLUN 2	LLUN 3	LLUN 4
Sawl person?				
Bechgyn? Merched?				
Beth maen nhw'n gwisgo?				
Pa liw ydy'r esgidiau?				

2. Cymharwch eich atebion mewn grŵp.

Dw i'n meddwl bod ... yn y llun.

Dw i'n cytuno.

Dw i'n anghytuno. Dw i'n meddwl bod ... yn y llun.

Dw i'n meddwl bod y ... yn gwisgo ...

Dw i'n cytuno. Dw i'n meddwl bod y ... yn gwisgo ... hefyd.

Dw i'n anghytuno. Dw i'n meddwl bod y ... yn gwisgo ...

Dw i'n meddwl bod yr esgidiau'n ...

Rwyt ti'n gywir.

Rwyt ti'n anghywir. Dw i'n meddwl bod yr esgidiau'n ...

3. Edrychwch ar y sleidiau eto er mwyn gwirio'ch atebion chi.

Geirfa


cytuno	(to) agree	gwirio	(to) check
anghytuno	(to) disagree		

4. Dewiswch un o'r lluniau.

Rydych chi'n gweithio yn y sioe ffasiynau.

Mae'r modelau'n cerdded fesul un i ddangos y dillad.

Ysgrifennwch sgrïpt i ddisgrifio'r dillad. Rhaid i chi roi enw i bob model.



Dyma ...

Mae e'n / o'n /
hi'n gwisgo...

5. Nawr, darllenwch y sgrïpt i'ch partner chi.

Rhaid i'ch partner chi wrando'n ofalus a phwyntio at y modelau cywir.

Yna, rhaid i'ch partner chi fynegi barn am y dillad a rhoi rhesymau.

Rhaid i chi gytuno neu anghytuno, a rhoi rheswm pam.

Geirfa

fesul un	one by one	pwyntio at	(to) point at
----------	------------	------------	---------------